

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Bil Caffael

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae RhS29 yn ei gwneud yn orfodol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu at ddiben sy'n newid y cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Mesur Caffael ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022 a chynhaliwyd ail ddarlleniad yr Arglwyddi ar 25 Mai. Mae'r Bil i'w weld yn: [Procurement Bill \[HL\] - Parliamentary Bills - UK Parliament](#).
3. Ar 24 Mai, ysgrifennais at y Llywydd yn esbonio na fu'n bosibl gosod y Memorandwm hwn, oherwydd maint a chymhlethdod y Bil a nifer y darpariaethau sy'n destun cydsyniad, o fewn y terfyn amser arferol o bythefnos.

Amcanion y Polisi

4. Amcanion datganedig polisi Llywodraeth y DU yw:
 - cyflymu a symleiddio prosesau caffael cyhoeddus
 - sicrhau bod gwerth am arian yn ganolog i'r broses
 - creu mwy o gyfleoedd i fusnesau bach a mentrau cymdeithasol i arloesi ym maes darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan Swyddfa'r Cabinet.
6. Diben y Bil yw cyflwyno deddfwriaeth ddiwygiedig ar gyfer y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n rheoli caffael cyhoeddus. Bydd yn diwygio'r gyfraith gaffael bresennol (gan gynnwys diddymu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015) sy'n deillio o Gyfarwyddebau'r UE.
7. Mae'r maes caffael yn eithaf cymhleth yn ei ymwneud â chyrff cyhoeddus. Felly, mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r cyfeiriadau canlynol er sicrhau eglurder:
 - 'Awdurdodau Contractio' (ACau) - pob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil
 - 'Awdurdodau Datganoledig Cymru' (ADCau) - fel y'u diffinnir gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLIC")

- 'Awdurdodau Contractio Cymru' (ACCau) - yr awdurdodau contractio yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r Bil (cyfeirir atynt fel "*devolved Welsh authorities*" yn y Bil ei hun) ac y mae'r pwerau a'r dyletswyddau perthnasol a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan y Bil yn gymwys iddynt.
8. Mae'r gwahaniaethau a'r prif bwyntiau i Gymru yn y Bil o'u cymharu â'r ddeddfwriaeth bresennol yn cynnwys y canlynol:
- Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi Datganiad Polisi Caffael Cymru a'i gwneud yn ofynnol i ACCau i'w ystyried.
 - Mae tymor y contract ar gyfer neilltuo contractau i gwmnïau gwasanaethau cyhoeddus cydfuddiannol yn cynyddu o dair blynedd i bum mlynedd.
 - Cwtogir nifer y gweithdrefnau caffael drwy gyflwyno gweithdrefn gystadleuol newydd hyblyg y gellir ei theilwra yn ôl gofynion penodol yr achos caffael dan sylw.
 - Mae darpariaeth newydd wedi'i chynnwys ar gyfer dyfarniad uniongyrchol sy'n diogelu bywyd, ac ati.
 - Mwy o ofynion i sicrhau tryloywder, sy'n golygu cyhoeddi rhagor o hysbysiadau caffael.
 - Bydd rhestr o'r rhai sydd wedi'u hatal yn cael ei chreu i sicrhau nad yw awdurdodau contractio yn dyfarnu contractau i gyflenwyr sydd wedi mynd yn groes i'r amodau atal, sydd hefyd wedi'u nodi yn y Bil.
 - Darpariaethau i ACCau o ran caffaeliadau o dan y trothwy.
 - Darpariaeth goruchwyllo a fydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymchwilio i sicrhau bod ACCau yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.
9. Gwahaniaeth pwysig arall, sy'n cael ei ystyried yn fantais sylweddol, yw bod y diffiniad o ACCau yn y Bil yn ehangach na'r diffiniad o "Awdurdodau Datganoledig Cymru" yn y Ddeddf. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o ACCau yng Nghymru yn dilyn darpariaethau 'Cymreig' y Bil.
10. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n glos â swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod y Bil wedi cynnwys amcanion polisi Cymru. Mae lefel yr ymgysylltu â Swyddfa'r Cabinet ar lefel swyddogol wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan.

Perthynas y Bil â Ddeddfwriaeth arall

11. Cyflwynwyd Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (SPPP) (Cymru) i Senedd Cymru ar 7 Mehefin 2022. Mae'r Bil hwn hefyd yn cynnig gosod rhwymedigaethau o ran caffael ar gyrff cyhoeddus diffiniedig yng Nghymru, i'w gwneud yn ofynnol iddynt gaffael mewn ffordd sy'n gymdeithasol gyfrifol.
12. Mae Bil Caffael Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar y prosesau caffael, mae'r Bil SPPPP ar y llaw arall yn canolbwyntio ar sicrhau bod caffael yn

esgor ar ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau Fil yn darparu trefn gaffael newydd sy'n sicrhau canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, gan gynnwys gwaith teg.

13. Mae fy swyddogion yn gweithio'n glos ar y ddau Fil i ddatrys neu liniaru unrhyw bosibilrwydd o ddyblygu, gwrthddweud neu ddryswch.
14. Dylid nodi bod y rhestr o ACCau sy'n ddarostyngedig i'r Bil Caffael lawer hirach na'r rhai sy'n destun y Bil SPPP. Mae'r Bil Caffael yn cwmpasu'r prosesau a'r gweithdrefnau y mae caffael yn seiliedig arnynt. Mae'r prosesau'n allweddol ar gyfer cyflawni strategaethau caffael a'r gofynion caffael allweddol eraill yn y Bil SPPP. Agwedd bwysig arni yw y bydd hefyd yn sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Caffael Llywodraethau (GPA), cytundeb amlbarti o fewn fframwaith Sefydliad Masnach y Byd.
15. Mae perthynas rhwng y Bil hefyd â Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd). Cyflwynwyd y Bil hwnnw hefyd i Senedd y DU (Tŷ'r Arglwyddi) ar 11 Mai ac fe'i noddir gan yr Adran Masnach Ryngwladol, cliciwch [yma](#) i'w weld. Disgwylir Cydsyniad Brenhinol iddo erbyn diwedd 2022/dechrau 2023. Caiff Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) yn ogystal â'r diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru a wneir trwy Fil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) eu diddymu gan y Bil Caffael.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

16. Rwyf o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yn y cymalau a nodir isod yn gymaint â'u bod yn gwneud darpariaeth sy'n "ddarpariaeth berthnasol" at ddibenion RhS29.

Rhan 1 – Prif Ddiffiniadau

17. Mae'r Rhan hon yn nodi prif ddiffiniadau'r Bil a'u hystyr, gan gynnwys awdurdodau contractio, contractau cyhoeddus, prisio contractau, caffael cymysg, contractau â chyfleustodau, contractau amddiffyn a diogelwch, contractau llai manwl a chontractau consesiwn.
18. Ceir gwybodaeth gysylltiedig ynghylch sut i amcangyfrif gwerth contract yn Atodlen 3 a cheir gwybodaeth am gyfleustodau yn Atodlen 4.
19. Mae Atodlen 1 yn nodi'r symiau trothwy at ddibenion y diffiniad o "public contract" yng nghymal 2. Mae Atodlen 2 yn rhoi gwybodaeth am gontractau sydd wedi'u heithrio o'r ddeddfwriaeth.
20. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 1 i 5 a 7 i 9 a darpariaethau cysylltiedig yn Atodlenni 1, 2, 3 a 4.
21. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Rhan 2 – Egwyddorion ac Amcanion

22. Mae'r Rhan hon yn disgrifio'r egwyddorion a'r amcanion caffael y mae'n rhaid i awdurdodau contractio eu hystyried. Mae'n cynnwys hefyd gyfeiriad at Ddatganiad Polisi Caffael Cymru.
23. Pan fo'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at Awdurdod Contractio sy'n caffael, mae hyn yn cynnwys AC sy'n caffael drosto'i hun; ar y cyd â pherson arall; drwy berson arall, neu at gaffaeliad gan awdurdod caffael canolog.
24. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi datganiad o dan y Rhan hon sy'n nodi blaenoriaethau caffael strategol Llywodraeth Cymru, sef Datganiad Polisi Caffael Cymru.
25. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 10,11 a 13. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS 29.

Rhan 3 – Dyfarnu Contractau Cyhoeddus a Gweithdrefnau

26. Mae'r Rhan hon yn disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus.

Pennod 1 – Camau Cychwynnol

27. Mae'r camau cychwynnol yn cynnwys cyhoeddi hysbysiadau caffael sydd yn yr arfaeth, manylion ymgysylltu cychwynnol â'r farchnad ac ati. Mae ymgysylltu cychwynnol â'r farchnad yn cynnwys defnyddio cyflenwyr i helpu i ddatblygu manyleb neu i ddylunio proses gaffael ond heb roi mantais annheg i'r cyflenwyr hynny yn y broses gaffael ei hun.
28. Mae'r bennod hon yn ymdrin hefyd â'r arfer o rannu contractau'n lotiau.
29. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 14 i 17. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Pennod 2 – Dyfarnu Cystadleuol

30. Mae'r bennod hon yn ymdrin â dyfarnu contractau cyhoeddus ac â hysbysiadau gofynnol. Mae hefyd yn cynnwys meini prawf dyfarnu, manylebau ac amodau cyfranogi.
31. Mewn gweithdrefn dendro gystadleuol, rhaid i AC ddyfarnu'r contract i'r cyflenwr sy'n cyflwyno'r "tendr sy'n dod â'r fantais fwyaf". Mae'r bennod hon yn disgrifio'r darpariaethau ar gyfer hyn. Mae amodau cyfranogi yn cyfeirio at yr amodau hanfodol i sicrhau bod gan y cyflenwr y capasiti cyfreithiol ac ariannol, a'r gallu technegol i gyflawni gofynion y contract.

32. Ymdrinnir hefyd yn y bennod hon ag atal cyflenwyr. Bydd y drefn atal o dan y Bil yn helpu i sicrhau nad yw contractau cyhoeddus yn cael eu dyfarnu i gyflenwyr, oherwydd eu hymddygiad yn y gorffennol neu eu hamgylchiadau presennol (neu ymddygiad unigolion/endidau cysylltiedig e.e. y rhai sydd â "rheolaeth arwyddocaol" ar y cyflenwr), y byddai'n ormod o risg dyfarnu'r contract iddynt a bod y risg honno'n fwy na'r budd i'r cyhoedd a ddaw o ganiatáu i'r cyflenwr gystadlu am gontract cyhoeddus. Mae'r rhestr o'r rhesymau dros atal i'w gweld yn Atodlenni 6 a 7.
33. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 18 i 39. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Pennod 3 – Dyfarniad Uniongyrchol

34. Mae'r bennod hon yn disgrifio beth yw dyfarniad uniongyrchol mewn achosion arbennig, i ddiogelu bywyd a disgrifir hysbysiadau tryloywder.
35. Mae dyfarniad uniongyrchol yn caniatáu i gontract gael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i gyflenwr, cyn belled nad yw'r cyflenwr wedi'i atal a bod un o'r rhesymau dros gyfiawnhau dyfarniad uniongyrchol wedi'i fodloni.
36. Diben y bennod hon yw sicrhau y gellir caffael yn ystod digwyddiad brys (fel pandemig Covid-19) mor gyflym a thryloyw â phosibl.
37. Nodir y rhesymau dros gyfiawnhau dyfarniad uniongyrchol yn Atodlen 5.
38. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 40 i 43 a darpariaethau cysylltiedig yn Atodlen 5.
39. Mae cymalau 40, 42 a 43 yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac mae cymal 41 yn rhoi pŵer i Weinidog y Goron wneud rheoliadau mewn perthynas ag ADCau.
40. Mae'r darpariaethau hyn felly'n "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Pennod 4 – Dyfarnu o dan Fframweithiau

41. Mae'r bennod hon yn disgrifio'r holl ofynion o ran dyfarnu fframwaith, gan gynnwys fframweithiau agored.
42. Mae "fframwaith" yn gontract rhwng AC ac un neu fwy o gyflenwyr sy'n caniatáu dyfarnu contractau o dan y fframwaith yn y dyfodol.
43. Mae fframwaith "agored" yn gynllun lle gellir ychwanegu cyflenwyr newydd at y cynllun ar adegau penodol yn ystod ei oes. Mae'n nodi pa mor aml y mae'n rhaid ailagor fframwaith agored.

44. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 44 i 47. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Pennod 5 – Ar ôl dyfarnu, cyfnodau segur a hysbysiadau

45. Disgrifir hysbysiadau dyfarnu cyswllt, cyfnodau segur a dangosyddion perfformiad allweddol yn y bennod hon.

46. Mae 'hysbysiad dyfarnu' yn hysbysiad sy'n nodi bod yr awdurdod contractio yn bwriadu llofnodi contract.

47. Y cyfnod segur gorfodol yw 8 diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad dyfarnu. Ni ddylid ymrwmo i gontract cyn diwedd unrhyw gyfnod segur gorfodol. Cyn ymrwmo i gontract sy'n werth £2 miliwn neu fwy, rhaid i ACau bennu a chyhoeddi o leiaf dri dangosydd perfformiad allweddol mewn perthynas â'r contract.

48. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 48 i 51. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS 29.

Pennod 6 – Darpariaeth Gyffredinol ynghylch dyfarnu a gweithdrefnau

49. Mae'r bennod hon yn disgrifio terfynau amser a therfynu contractau, ond nid cyflenwyr a gwaharddiadau.

50. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i AC gadarnhau (ar ffurf hysbysiad) os yw'n penderfynu peidio â dyfarnu contract caffael, h.y. os yw'n terfynu proses gaffael.

51. Mae ACau bob amser wedi gallu atal cyflenwyr ond bydd y Bil yn gosod dyletswydd arnynt i hysbysu'r Gweinidog priodol ynghylch cyflenwyr y maent wedi'u hatal. Bydd angen i ACAu roi'r hysbysiad hwn i Weinidogion Cymru a fydd â phwerau i ymchwilio i gyflenwyr o'r fath. Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol, cânt gyfeirio'r cyflenwr at Weinidog y Goron i benderfynu a ddylid ei wahardd. Caiff y rhestr o waharddiadau ei chadw'n ganolog a'i rheoli gan Lywodraeth y DU a bydd yn gwahardd cyflenwyr rhag ceisio am gontractau'r Llywodraeth am gyfnod penodol neu nes y bydd wedi ei "lanhau" ei hun. Cyhoeddir y rhestr waharddiadau a bydd yn cyd-fynd â'r drefn atal cyflenwyr fel amddiffyniad ychwanegol rhag i gontractau gael eu dyfarnu i gyflenwyr anaddas.

52. Mae Atodlenni 6 a 7 yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â rhesymau dros atal gorfodol a'r rhesymau dros atal yn ôl disgrisiwn.

53. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 52 i 61 a darpariaethau cysylltiedig yn Atodlenni 6 a 7.

54. Mae cymalau 52 i 58 a 60 a 61 yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac mae cymal 59 yn neilltuo swyddogaethau i Weinidog y Goron y caiff eu harfer mewn perthynas â ADCau.

55. Mae'r darpariaethau hyn felly'n "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Rhan 4 – Rheoli Contractau Cyhoeddus

56. Mae'r Rhan hon yn cynnwys cymalau ar delerau ymhlyg, hysbysiadau ynghylch taliadau a pherfformiad, is-gontractau, newid contractau cyhoeddus a hysbysiadau a hawliau terfynu.

57. Mae'n cyflwyno darpariaethau sy'n ymwneud ag e-anfonebu a thalu'n brydlon.

58. Mae pŵer hefyd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n newid y trothwy ariannol neu'r terfyn amser perthnasol mewn perthynas â'r darpariaethau talu brydlon.

59. Caiff ACau newid contract yn ystod ei dymor. Nodir y newidiadau i gontractau a ganiateir yn Atodlen 8.

60. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 62 i 73 a darpariaethau cysylltiedig yn Atodlen 8. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac maent felly'n "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Rhan 5 – Gwrthdaro Buddiannau

61. Mae'r Rhan hon yn ymdrin â nodi, lliniaru ac asesu achosion o wrthdaro buddiannau.

62. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 74 i 76. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Rhan 6 – Contractau o dan y trothwy

63. Disgrifir yn y Rhan hon gontractau o dan y trothwy, gan gynnwys hysbysiadau, gweithdrefnau a thelerau talu sy'n ymhlyg.

64. Mae Atodlen 1 yn cynnwys tabl sy'n nodi'r gwahanol drothwyon sy'n gymwys i'r gwahanol gategoriâu o gontract. P'un a yw gwerth bras contract yn uwch ynteu'n is na'r trothwy perthnasol sy'n penderfynu a yw'n destun y brif drefn ar gyfer contractau cyhoeddus a nodir yn y Bil, neu'r drefn o dan y trothwy.

65. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 77, 79 ac 80. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac maent felly'n "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Rhan 7 – Cadw at Ymrwymïadau Rhyngwladol

66. Mae'r Rhan hon yn ymdrin â chyflenwyr gwladwriaeth o dan gytundeb ac â gwahaniaethu.

67. Mae rhai cytundebau rhyngwladol, y mae'r DU wedi'u harwyddo, yn gosod rhwymedigaethau ar y DU i sicrhau bod rhai awdurdodau contractio yn rhoi cyfleoedd caffael cyhoeddus yn y DU i bartion eraill y cytundeb. Mae cyflenwr gwladwriaeth o dan gytundeb yn gyflenwr sy'n cael elwa ar gytundeb rhyngwladol a restrir yn Atodlen 9 (cyflenwyr gwladwriaeth cytundeb (cytundebau rhyngwladol penodedig)).

68. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 81 ac 82 a'r darpariaethau cysylltiedig yn Atodlen 9.

69. Mae cymal 81 yn rhoi pŵer i "awdurdod priodol" (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru) wneud rheoliadau sy'n diwygio'r rhestr o gytundebau rhyngwladol yn Atodlen 9. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy mewn perthynas ag ADCau. Mae cymal 82 yn neilltuo swyddogaethau i ADCau.

70. Mae'r darpariaethau hyn felly'n "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS 29.

Rhan 8 – Gwybodaeth a Hysbysiadau: darpariaeth gyffredinol

71. Mae hyn yn cynnwys hysbysiadau 'piblinell', esemptiadau cyffredinol o ran datgelu gwybodaeth, cyfathrebu electronig a gwybodaeth caffael.

72. Rhaid i unrhyw AC sy'n credu y bydd, yn y flwyddyn ariannol nesaf, yn gwario mwy na £100m ar gontractau perthnasol gyhoeddi hysbysiad, y cyfeirir ato fel hysbysiad 'piblinell'.

73. Rhaid i hysbysiad 'piblinell' gynnwys gwybodaeth am unrhyw gontract cyhoeddus sydd â gwerth bras o fwy na £2m y mae'r AC yn disgwyl cyhoeddi hysbysiad i dendro ar ei gyfer (sy'n ymwneud â mathau penodol o gystadleuaeth).

74. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 84 i 88. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac maent felly'n "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Rhan 9 – Rhwymedïau am dorri dyletswydd statudol

75. Mae'r adran hon yn disgrifio'r dyletswyddau y gellir eu gorfodi o dan y Bil mewn achosion sifil, gan gynnwys rhwymedïau cytundebol.

76. Gellir herio AC drwy achosion sifil os nad yw'n cydymffurfio â Rhannau 1-5 a 7 ac 8 o'r Bil. Ni ellir gorfodi'r ddyletswydd ond os yw'r cyflenwr wedi dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, colled neu ddifrod o ganlyniad i dorri'r ddyletswydd (gan gynnwys, er enghraifft, drwy golli cyfle i gystadlu am gontract cyhoeddus).
77. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 89 i 95. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â gorfodi'r ddyletswydd ar ADCau i gydymffurfio â Rhannau 1 i 5, 7 ac 8 ac maent felly'n "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Rhan 10 – Goruchwylio Caffael

78. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau ynghylch ymchwiliadau, argymhellion a chanllawiau caffael.
79. Bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i ymchwilio i weld a yw ACC yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth hon.
80. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 96 i 98. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â ADCau ac yn neilltuo swyddogaethau i ADCau. Felly, maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS 29.

Rhan 11 – Awdurdodau priodol a chaffael trawsffiniol

81. Mae'r Rhan hon yn disgrifio'r cyfyngiadau ar y pwerau y caiff Gweinidogion Cymru eu harfer. Mae'r meysydd yn y Bil hwn y caiff Gweinidogion Cymru arfer swyddogaethau ynddynt a'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru o dan y Bil ond yn gymwys i rai CAu a chontractau penodol.
82. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 99, 101, 102 a 103.
83. Mae cymal 99 yn darparu ar gyfer arfer pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â ADCau.
84. Mae cymal 101 yn darparu ar gyfer arfer pwerau Gweinidog y Goron mewn perthynas â ADCau.
85. Mae cymal 102 yn gwneud darpariaeth ar gyfer "trefniadau caffael datganoledig Cymru" (fel y'u diffinnir yng nghymal 102(2)).
86. Mae cymal 103 yn darparu ar gyfer arfer pwerau Gweinidog y Goron mewn perthynas â dyfarnu contractau o dan drefniadau caffael datganoledig Cymru.
87. Mae'r rhain felly'n "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS 29.

Rhan 12 – Diwygio a diddymu

88. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â datgymhwyso adran 17, pwerau cydamserol a'r DLIC a manylion diddymiadau a dirymiadau.
89. Mae Adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i rai swyddogaethau caffael cyhoeddus penodol gael eu harfer gan awdurdodau lleol a rhai awdurdodau cyhoeddus eraill (fel y'u rhestrir yn Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1988) heb gyfeirio at ystyriaethau anfasnachol penodedig. Mae hyn yn cael ei ddatgymhwyso gan y gallai rwystru rhai awdurdodau contractio rhag sicrhau holl fanteision y Bil.
90. Gwneir darpariaeth ar gyfer dileu'r cyfyngiadau ar Senedd Cymru yn Atodlen 7B i DLIC o ran deddfu ar gyfer awdurdodau cadw a diwygio swyddogaethau Gweinidog y Goron sy'n ymwneud â swyddogaethau datganoledig cymwys. Mae dileu'r cyfyngiadau hyn yn golygu y gallai Bil gan Senedd Cymru ddileu neu newid unrhyw un o'r swyddogaethau cydamserol o dan y Bil heb fod angen cael cydsyniad y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU.
91. Mae'r Rhan hon hefyd yn dod ag Atodlen 11 i rym, sy'n rhestru'r ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a gaiff eu diddymu neu eu dirymu gan y Bil.
92. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 104, 106 a 107 a darpariaethau cysylltiedig yn Atodlen 11.
93. Mae cymal 104 yn rhoi pŵer i Weinidog y Goron a Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag awdurdod y mae adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 yn ymwneud ag ef.
94. Mae cymal 106 yn diwygio DLIC mewn ffordd sy'n newid cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
95. Mae cymal 107 yn diddymu ac yn dirymu deddfiadau sy'n gymwys mewn perthynas ag ADCau.
96. Mae'r darpariaethau hyn felly'n "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Rhan 13 – Cyffredinol

97. Mae'r Rhan hon yn cynnwys y pwerau sy'n ymwneud â chyfleustodau preifat a darpariaethau canlyniadol, a hyd a lled y Ddeddf a manylion ei chychwyn. Mae'r rheoliadau yn y Ddeddf hefyd wedi'u rhestru ynghyd â phennod Dehongli'r Ddeddf a mynegai o ymadroddion sydd wedi'u diffinio.
98. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 109, 110 i 113 a 115.

99. Mae cymal 109 yn rhoi pŵer i awdurdod priodol wneud rheoliadau at ddiben lleihau'r rheoleiddio ar gyfleustodau preifat o dan y Ddeddf. Mae hwn yn ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru cyn belled â'i fod yn ymwneud â chyfleustodau yng Nghymru.
100. Mae cymal 110 yn darparu ar gyfer arfer pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf (gan gynnwys arfer pwerau Gweinidogion Cymru) a'r weithdrefn sy'n gymwys i wneud y rheoliadau hynny.
101. Mae cymalau 111 i 113 a 115 yn cynnwys darpariaeth sy'n atodol i brif ddarpariaethau'r Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.
102. Mae'r rhain felly yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Awdurdodau Contractio Cymru

103. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yn y cymalau a nodir uchod yn gymaint â'u bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag Awdurdodau Contractio Cymru (fel y'u diffinnir uchod) nad ydynt yn ADCau ond sy'n arfer swyddogaethau neu'n cyflawni gweithgareddau mewn perthynas â Chymru yn unig. Yn hyn o beth, maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.
104. Mae angen cydsyniad hefyd ar gyfer darpariaethau yn y cymalau a nodir uchod yn gymaint â'u bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â ACCau nad ydynt yn ADCau ond sy'n arfer swyddogaethau neu'n cyflawni gweithgareddau y tu allan i Gymru. Yn hyn o beth, maent yn ddarpariaethau sy'n ymwneud â materion datganoledig. Mae adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu "... na fydd Senedd y Deyrnas Unedig fel arfer yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru".

Pwerau Gweinidogion Cymru

105. Mae'r darpariaethau canlynol yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio gweithdrefn Gadarnhaol Senedd Cymru.
- Adran 8 (contractau llai manwl)
 - adran 33 (neilltuo contractau ar gyfer cwmnïau cyhoeddus cydfuddiannol)
 - adran 64 (hysbysiadau cydsynio taliad)
 - adran 81 (cyflenwyr gwladwriaeth o dan gytundeb: cytundebau rhyngwladol)
 - adran 86 (hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth)
 - adran 88 (gwybodaeth am gaffael)
 - adran 104 (datgymhwyso adran 17 Deddf Llywodraeth Leol 1988)
 - adran 109 (diwygio'r Ddeddf mewn perthynas â chyfleustodau preifat)

- adran 113 (darpariaeth ganlyniadol), os bydd y rheoliadau a wneir trwyddo yn newid deddfwriaeth sylfaenol
- paragraff 3 neu 5 o Atodlen 1 (symiau trothwy)
- Atodlen 2 (contractau wedi'u hesemptio)
- Atodlen 4 (gweithgareddau cyfleustodau)

106. Mae'r darpariaethau canlynol yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio gweithdrefn Negyddol Senedd Cymru.

- Adran 50 (Prif Ddangosyddion Perfformiad)
- Adran 62 (Anfonebu Electronig: telerau ymhlyg)
- Adran 63 (telerau talu ymhlyg mewn contractau cyhoeddus)
- Adran 65 (Gwybodaeth am daliadau o dan gontractau cyhoeddus)
- Adran 79 (Contractau rheoledig o dan y trothwy: hysbysiadau)
- Adran 80 (Contractau rheoledig o dan y trothwy: telerau talu ymhlyg)
- Adran 84 (Hysbysiadau 'piblinell')
- Adran 113 (darpariaeth ganlyniadol)
- Atodlen 1 (symiau trothwy, paragraff 3)

107. Dylid nodi nad yw adran 70 (Hysbysiadau newid contract a chyhoeddi newidiadau) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i'r pŵer a roddir i Weinidog y Goron i wneud rheoliadau i ddiwygio'r trothwyon gwerth yn is-adran (2). Mae fy swyddogion wedi codi hyn gyda'u cyd-swyddogion yn Llywodraeth y DU fel gwelliant gofynnol hanfodol.

108. Dylid nodi bod y pŵer yn yr adrannau hyn yn y Bil yn cael ei roi i 'awdurdod priodol', sy'n golygu Gweinidog y Goron, Gweinidogion Cymru neu Adran yng Ngogledd Iwerddon (gweler cymal 111 (dehongli)). Effaith cymalau 99 a 101(1) yw mai'r sefyllfa ddiodyfyn yw bod gan Weinidogion Cymru bwerau cyfatebol i rai Gweinidogion y Goron mewn perthynas â meysydd datganoledig. Fodd bynnag, effaith cymal 101(5) yw nad hynny yw'r sefyllfa ddiodyfyn o ran y pwerau o dan gymalau 81 (cyflenwyr gwladwriaeth o dan gytundeb), 113 (darpariaeth ganlyniadol) a 115 (cychwyn).

109. Mae fy swyddogion wedi gofyn i Lywodraeth y DU am welliant i gymal 101(5). Rhagwelir y gellid ei gynnwys fel rhan o gyfres o welliannau gan y llywodraeth yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Bwriedir i welliant o'r fath roi pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru o dan gymalau 81, 113 a 115 mewn perthynas â meysydd datganoledig.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

110. Barn Llywodraeth y DU yw bod y Bil yn defnyddio'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol wrth ddeddfu ar gyfer caffaeliadau a wneir gan DCAau a rhai cyfleustodau preifat (fel y'u diffinnir yn y Bil). Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod rhai eithriadau i hyn lle mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am randdirymiad i'r rheolau craidd yn y Bil. Mae

Llywodraeth y DU o'r farn, yn yr achosion hyn, nad yw'r darpariaethau 'craidd' yn defnyddio'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol gan nad ydynt yn gymwys i ADCau, ond bod darpariaethau ar wahân ar gyfer ADCau yn cael eu cyhoeddi gyda hwy sy'n defnyddio'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Maent wedi rhestru'r meysydd lle ceir gwahaniaeth fel a ganlyn:

- Gallu Gweinidogion Cymru i gyhoeddi Datganiad Polisi i Gymru a'r rhwymedigaeth ar ADCau i roi sylw i hyn;
- Nid oes gofyn i DCAau gyhoeddi contractau gwerth dros £2 miliwn ar y Platform Canolog;
- Nid oes gofyn i DCAau ddiweddarau contractau cyhoeddedig sydd wedi'u newid, na chyhoeddi contractau os yw newid yn codi gwerth y contract i fwy na £2 miliwn; a
- Gwahardd cyfnod cyn-gymhwyso ar wahân ar gyfer caffaeliad sydd werth llai na throthwyon GPA. Nid yw'r gwaharddiad hwn yn effeithio ar DCAau.

111. Rwy'n cytuno bod y Bil yn defnyddio'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol wrth ddeddfu ar gyfer caffaeliadau a wneir gan DCAau a rhai cyfleustodau preifat (fel y'u diffinnir yn y Bil).
112. Rwy'n cytuno na ddefnyddir y broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â darpariaethau yn y Bil nad ydynt yn gymwys i Gymru.
113. Yn fy marn i, mae'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei defnyddio mewn perthynas â chyhoeddi Datganiad Polisi Caffael Cymru ond nid yw'n cael ei defnyddio mewn perthynas â chyhoeddi'r Datganiad Polisi Caffael Cenedlaethol.
114. Rwy'n cytuno na ddefnyddir y broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r gofyniad i gyhoeddi contractau sy'n werth dros £2 miliwn (gweler cymal 51(3)) ond fe'i defnyddir mewn perthynas â'r gofynion eraill yng nghymal 51.
115. Rwy'n cytuno na ddefnyddir y broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r gofyniad i ddiweddarau contractau cyhoeddedig pan fyddant wedi'u newid neu i gyhoeddi contractau os yw newid yn codi gwerth y contract i fwy na £2 miliwn (gweler cymal 70(6)) ond fe'i defnyddir mewn perthynas â'r gofynion eraill yng nghymal 70.
116. Rwy'n cytuno na ddefnyddir y broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â gwahardd cyfnod cyn-gymhwyso ar wahân ar gyfer caffaeliadau sy'n werth llai na throthwyon GPA (gweler cymal 78).

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Caffael

117. Prif fanteision y Bil yw:

- Gweithdrefnau symlach i ddefnyddwyr ac un system gofrestru ar gyfer cyflenwyr gan helpu i greu trefn gaffael gyson.
- Bydd gweithdrefnau caffael mwy hyblyg yn rhoi mwy o allu i ADCau negodi ac arloesi yn y wlad hon ac yn rhyngwladol.
- Bydd gofyniad i fod yn fwy tryloyw a ymgorfforir hynny gydol y cylch bywyd masnachol, o gynllunio hyd at gaffael, dyfarnu contractau a pherfformiad. Bydd data caffael yn cael eu cyhoeddi mewn fformat agored safonol, sy'n hygyrch i bawb. Bydd data caffael mwy tryloyw yn helpu i bawb weld sut y caiff arian cyhoeddus Cymru ei wario.
- Bydd ADCau yn gallu dewis y tendr Mwyaf Manteisiol sy'n bodloni orau'r meini prawf dyfarnu, hynny rhag i'r gost isaf fod y prif ffactor. Mae hyn yn golygu y dylid dyfarnu contractau i'r cyflenwr sy'n bodloni gofynion y contract orau.
- Bydd y darpariaethau yn y Bil yn helpu i wella gallu'r proffesiwn caffael ledled Cymru.
- Mae'r Bil yn sicrhau cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau rhyngwladol gan gynnwys Cytundeb Caffael Llywodraethau'r WTO, sy'n gwarantu hawl busnesau Prydeinig i geisio am £1.3 triliwn o gyfleoedd caffael cyhoeddus dramor.
- Bydd gofyn ar ADCau i ystyried Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS), gan helpu i sicrhau bod uchelgeisiau ein polisïau yng Nghymru yn cael eu gwireddu. Ni ddeddfwyd ar y gofyniad hwn erioed o'r blaen.

118. Mae sawl rheswm pam y byddai dewis deddfu ar ddiwygio'r drefn gaffael ar lefel Cymru a Lloegr yn ddewis pragmatig:

- Dilyniant i gyflenwyr a phrynwyr a sicrhau bod y system gaffael mor ddi-fwlch â phosibl. Gall busnes trawsffiniol â Lloegr barhau i raddau helaeth heb ddryswch na'r potensial am gostau ychwanegol i ddefnyddwyr.
- Mae gwahaniaethau yn y rheolau a pholisïau caffael ar draws llywodraethau datganoledig yn destun Fframwaith Cyffredin, sy'n sicrhau synergedd rhwng gwahanol setiau o ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, nid yw'n lleihau risgiau fel diffyg cysondeb a sicrwydd i ADCau a chyflenwyr, yn enwedig y rhai sy'n cynnal busnes ar draws ffiniau.
- Daw caffael o dan nifer o gytundebau masnach rhyngwladol y DU ac o dan Gytundeb Caffael Llywodraethau (GPA) y WTO. Mae'r drefn yn y Bil yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn ac mae wedi'i diogelu i raddau i'r dyfodol drwy bwerau dirprwyedig i allu diweddarau'r drefn pan gaiff cytundebau newydd eu llofnodi.

- Alinio polisiâu: Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Bil yn cyd-fynd â'n hagenda bolisi. Lle nad ydynt yn cyd-fynd, yr ydym wedi cael rhanddirymiadau neu esemptiadau.
- Bu fy swyddogion yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU wrth ddatblygu'r Bil gan awgrymu cynnwys rhai darpariaethau yn y Bil. Mae'r darpariaethau allweddol y gofynnwyd amdanynt wedi'u cynnwys yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.
- Mae darpariaethau'r Bil yn synhwyrol ac yn bwysig: maent yn mynd i'r afael â gwendidau amlwg yn y prosesau caffael, megis diffyg hyblygrwydd y gweithdrefnau caffael, yr angen am fwy o dryloywder ac ati.
- Amseru: mae Llywodraeth y DU wedi cael cyflwyno deddfwriaeth i Senedd y DU lawer cynt nag y byddai amserlen Senedd Cymru wedi'i chaniatáu. Trwy weithredu ar y cyd, daw diwygiadau i rym yn gynt yng Nghymru nag a fyddai'n bosibl fel arall.
- Mae defnyddio Bil y DU yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio adnoddau ar agweddau pwysig eraill ar gaffael sy'n sicrhau gwerth cymdeithasol ac sy'n sbardunau allweddol i newid, megis y Bil SPPP a Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS), ac ati.
- Er mwyn cefnogi taliadau prydlon, bydd amod talu 30 diwrnod ymhlyg ym mhob contract cyhoeddus a phob is-gontract cyhoeddus. Er mwyn alinio'n well â'r sector preifat, bydd y 30 diwrnod yn dechrau ar y dyddiad y derbynnir yr anfoneb gan yr AC. Hefyd, bydd gofyn i ACau gyhoeddi hysbysiad i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r amod talu hwn.

119. Er fy mod yn fodlon i'r broses cydsynio deddfwriaethol ddechrau yn Senedd Cymru, bydd angen datrys y testunau pryder pwysig canlynol cyn y gellir argymhell cydsyniad:

- Mae'r pŵer i ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9 wedi'i ddrafftio yn y Bil fel y'i cyflwynwyd fel pŵer cydamserol heb ofyn i gael caniatâd Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â maes datganoledig. Nid yw hyn yn dderbyniol i Weinidogion Cymru ac ar 23 Mai ysgrifennais at y Gweinidog Cyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd Llywodraeth i ofyn i Lywodraeth y DU ailystyried ei safbwynt;
- Rwy'n ceisio diwygio'r diffiniad o ADCau, gyda'r bwriad o sicrhau bod y cymalau'n gweithio'n decach mewn perthynas â rhai achosion o gaffael trawsffiniol, h.y. achos o gaffael sy'n digwydd yng Nghymru a Lloegr. Ysgrifennais at y Gweinidog Cyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd Llywodraeth ar 18 Mai i ofyn i Lywodraeth y DU ystyried gwelliant i'r Bil i fynd i'r afael â'r mater hwn;
- Pwerau cychwyn – mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i roi pwerau cychwyn i Weinidogion Cymru ond mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu mai Gweinidogion y Goron yn unig fydd â'r pŵer hwn. Bydd angen diwygio hyn i roi pwerau i

Weinidogion Cymru yn y maes hwn. Mae fy swyddogion wedi gofyn i Swyddfa'r Cabinet am welliant fel rhan o'r cais am welliannau gan y Llywodraeth;

- Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati – mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu ar gyfer pwerau cydamserol heb ofyn i gael caniatâd Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â maes datganoledig. Bydd angen diwygio hyn i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn y maes hwn. Mae fy swyddogion wedi gofyn i Swyddfa'r Cabinet am welliant fel rhan o'r cais am welliannau gan y Llywodraeth;
- Pŵer datgymhwyso ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd – Mae angen diwygiad i roi pŵer datgymhwyso i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cyfateb i bŵer Llywodraeth y DU mewn perthynas â gwasanaethau gofal iechyd. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi ymrwymo i gyflwyno'r gwelliant hwn yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi mewn llythyr a dderbyniwyd gan y Gweinidog Cyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd Llywodraeth ar 11 Mai.
- Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn nodi y byddai modd mewn achosion sifil orfodi AC yn unol â'i ddyletswydd i gydymffurfio â Rhannau 1 i 5, 7 ac 8. Fel yr ydym yn deall, byddai hynny'n cynnwys dyletswydd ACC i roi sylw i'r WPPS (a gynhwysir yn Rhan 2). Nid yw hyn yn adlewyrchu safbwynt polisi Llywodraeth Cymru ac mae swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet eisoes wedi ymrwymo i gyflwyno'r gwelliant hwn.

Goblygiadau ariannol

120. Mae'n debyg y bydd nifer o gostau'n gysylltiedig â'r gwaith o ddiwygio caffael cyhoeddus yng Nghymru, er nad yw'r union fanylion wedi cael eu cadarnhau hyd yn hyn. Mae'r rhain yn cynnwys costau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru a'r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru – sef costau am ddatblygu a darparu rhaglen hyfforddi a datblygu, yn ogystal â chostau sy'n gysylltiedig â gwella systemau e-gaffael. Bydd y rhan fwyaf o'r costau hyn yn cael eu talu drwy gyllidebau presennol. Er enghraifft, mae £1 miliwn ychwanegol o refeniw bob blwyddyn wedi cael ei ddyrannu i systemau e-gaffael a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2022/23, 2023/24 a 2024/25, i alluogi'r systemau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gael eu gwella, neu i gaffael capasiti newydd fel eu bod yn barod ar gyfer y gwaith o ddiwygio maes caffael.

121. Er y bydd y rhan fwyaf o'r costau'n cael eu talu drwy gyllidebau presennol, bydd angen cyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu, cyfieithu a chyhoeddi'r is-ddeddfwriaeth, y rheoliadau a/neu y canllawiau statudol. Disgwylir y bydd angen adnoddau gwasanaethau cyfreithiol tan 2023/24, a fydd yn costio tua 250k. Hefyd, yn seiliedig ar yr angen i lunio 20 darn o ganllawiau statudol, disgwylir cost o £87,000 am gyfieithu a chyhoeddi'r

rhain – bydd y gost hon yn cael ei rhannu dros y blynyddoedd ariannol 2022/23, 2023/24 a 2024/25. Byddwn i'n gweithio i nodi sut bydd y costau hyn yn cael eu talu maes o law.

122. Bydd hefyd costau i'r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru o ganlyniad i'r diwygiadau. Amcangyfrifir mai'r costau sy'n gysylltiedig ag uwchsgilio timau caffael ac unrhyw aelodau o staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau caffael/rheoli contractau o dan y rheoliadau newydd a systemau e-gaffael fydd tua £903k. Hefyd bydd costau untro gan y bydd angen diweddarau gweithdrefnau mewnol / archebion sefydlog, dogfennau a thempledi – tua £10k i bob Awdurdod Contractio yng Nghymru.

Casgliad

123. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amcanion polisi Cymru wedi'u cynnwys ac rwyf o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn yn darparu cyfundrefn gaffael symlach a thryloyw yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'n briodol argymhell cydsyniad nes bod y materion sy'n peri pryder fel y'u hamlinellir ym mharagraff 119 uchod wedi'u datrys.

Rebecca Evans AS
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
9 Mehefin 2022